

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 420 (Cy. 90)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2)  
(Cymru) 2020**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("y GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygu penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy fewnosod Rhan 3A newydd (Adeiladau Dros Dro a Newid Defnydd at Ddibenion Argyfwng= Iechyd y Cyhoedd) i ganiatáu datblygu penodol yng Nghymru at ddibenion atal, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig, neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng o'r fath.

Y datblygu a ganiateir yw newid defnydd adeilad neu dir i Ddosbarth C2 (Sefydliadau preswyl) neu Ddosbarth D1 (Sefydliadau amhreswyl) o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987, a darparu adeiladau neu strwythurau eraill.

Mae'r datblygu a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau a chyfyngiadau sydd hefyd wedi eu nodi yn y Rhan 3A newydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol llunio asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2020 Rhif 420 (Cy. 90)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a  
Thref (Datblygu Cyffredinol a  
Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2)  
(Cymru) 2020**

*Gwnaed* 9 Ebrill 2020

*Yn dod i rym* 10 Ebrill 2020

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol  
Cymru* 14 Ebrill 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 59, 60(1), 61(1) and 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2020 a daw i rym ar 10 Ebrill 2020.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

---

(1) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 60(1), 61(1) a 333(7), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo: *gweler* y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253), ac Atodlen 3 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref  
(Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**

2.—(1) Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(1) wedi ei diwygio fel y nodir ym mharagraff (2).

(2) Ar ôl Rhan 3 (Newid Defnydd) mewnosoder—

**“Part 3A**

**Temporary Building and Changes of  
Use for Public Health Emergency  
Purposes**

**Class A**

**A. Permitted development**

**Development for the purpose of preventing, controlling or mitigating the effects of, or taking other action in connection with a public health emergency in the United Kingdom, consisting of—**

**(a) a change of the use of a building or land to a use falling within Class C2 (Residential institutions) or Class D1 (Non-residential institutions) of the Schedule to the Use Classes Order,**

**(b) the provision on land of buildings, moveable structures, works, plant or machinery.**

**A.1 Development not permitted**

Development is not permitted by Class A if—

(a) any part of the development is on land which is, or forms part of—

(i) a military explosive storage area;

(ii) a safety hazard area;

(iii) a site of special scientific interest; or

(b) the land or building is, or contains, a scheduled monument.

**A.2 Conditions**

Development is permitted by Class A subject to the following conditions—

(a) the development must be undertaken by or on behalf of an NHS body;

---

(1) O.S. 1995/418 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

- (b) if the developer is not also the local planning authority, the developer must, as soon as reasonably practicable notify the local planning authority of that development; and
- (c) on or before the expiry of the period of twelve months beginning with the date on which the development began—
  - (i) any use of that building or land for the purpose of Class A must cease;
  - (ii) any building, moveable structure, works, plant or machinery permitted by Class A must be removed; and
  - (iii) the building or land must be restored to its condition before the development took place, or to such other state as may be agreed in writing between the local planning authority and the developer.

### A.3 Interpretation of Class A

- (1) For the purposes of Class A—

“military explosives storage area” means any area, including an aerodrome, depot, mooring or port, at which the storage of military explosives may be undertaken and for which the associated explosives safeguarding zone is identified on a safeguarding map, issued by the Secretary of State provided to the local planning authority for the purposes of a direction made by the Welsh Ministers in exercise of powers conferred by article 18(1) of the Procedure Order (or any previous powers to the like effect);

“NHS body” has the same meaning as in section 206 of the National Health Service (Wales) Act 2006<sup>(1)</sup>;

“Procedure Order” means the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012<sup>(2)</sup>;

“public health emergency” means an event or situation which threatens serious damage to human welfare in a place in the United Kingdom;

---

(1) 2006 p. 42, diwygiwyd adran 206 gan baragraffau 38(1)(a), (b) a (d) o Atodlen 21 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 p. 7. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(2) O.S. 2012/801 (Cy. 110) y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

“safety hazard area” means an area notified to the local planning authority—

- (a) by the Health and Safety Executive for the purposes of paragraph (c) of the Table in Schedule 4 to the Procedure Order (or any previous powers to the like effect); or
- (b) by the Office for Nuclear Regulation for the purposes of paragraph (d) of that Table.

(2) For the purposes of the definition of “public health emergency” in paragraph (1), an event or situation threatens damage to human welfare only if it involves, causes or may cause—

- (a) loss of human life;
- (b) human illness or injury;
- (c) disruption of services relating to health.”

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
9 Ebrill 2020